

CYMWYS AM OES

BETH SY'N DIGWYDD I FAGLORIAETH CYMRU?

Mae Bagloriaeth Cymru'n newid. Bydd Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd wrth wraidd system cymwysterau Cymru a bydd yn ceisio ysbrydoli dysgwyr a'u herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Ei nod yw helpu dysgwyr 14 i 19 oed i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer addysg uwch, byd gwaith a bywyd.


Mae'n gymhwyster hyblyg a chynhwysol sy'n ategu dewisiadau dysgwyr o ran TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol.

Bydd cymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru yn cael ei asesu'n drwyadl. Bydd gwahanol raddau'n cael eu dyfarnu, gan sicrhau bod gwaith caled a pherfformiad uchel yn cael eu gwobrwyo'n well ac yn cael eu cydnabod yn fwy gan sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr.

Prif ddiben Bagloriaeth Cymru yw datblygu ac asesu sgiliau hanfodol fel llythrennedd, rhifedd, llythrennedd ddigidol, meddwl yn feiriadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi ac effeithiolrwydd personol.

Ni fydd angen cymwysterau Sgiliau Hanfodol a Sgiliau Allweddol Ehangach ar gyfer Bagloriaeth newydd Cymru.

GOFYNION BAGLORIAETH CYMRU



BETH YW'R GOFYNION?

Fel y dangosir yn y diagram, i gyflawni Bagloriaeth Cymru bydd angen i ddysgwyr gwblhau:

1. Tystysgrif yr Her Sgiliau

• Prosiect Unigol

Dyma aseiniad annibynnol yn seiliedig ar waith ymchwil ar bwnc a gaiff ei ddewis ar gyfer yr unigolyn. Bydd dysgwyr yn dangos yr wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer llunio ymchwiliad ysgrifenedig neu arteffact/cynnyrch a ategir gan ymchwil ysgrifenedig.

• Her Menter a Chyflogadwyedd

Er mwyn i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a phriodweddau menter a'u gwneud yn fwy cyflogadwy.

• Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Er mwyn i ddysgwyr ddeall mater sy'n effeithio ar yr holl fyd ac ymateb yn briodol iddo.

• Her Cymunedol

Er mwyn i ddysgwyr bennu, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd a fydd o fudd i'r gymuned.

2. TGAU

TGAU Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith a TGAU Mathemateg – Rhifedd.

3. Cymwysterau ategol

Er enghraifft, cymwysterau TGAU eraill; cymwysterau Uwch Gyfrannol/Safon Uwch; cymwysterau galwedigaethol (ewch i www.cbac.co.uk i weld y gofynion penodol ar gyfer pob lefel).

“O'n safbwynt ni, rydym yn disgwyl i'r myfyrwyr sy'n dod i Rydychen allu meddwl yn annibynnol, bod yn frwd dros y pynciau y maent yn bwriadu eu hastudio a hefyd fod yn barod i fod yn hyblyg. Credaf yn bendant y bydd system gymwysterau newydd Cymru, ac yn arbennig Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd, yn helpu i ddatblygu myfyrwyr fel y gallant gyflawni'r tri pheth uchod.”

Dr Samina Khan, Cyfarwyddwr Dros Dro Derbyn Israddedigion ac Ymgysylltu, Prifysgol Rhydychen

PWY FYDD YN DILYN BAGLORIAETH CYMRU?

Mae Llywodraeth Cymru'n annog pob canolfan i fabwysiadu Bagloriaeth newydd Cymru o fis Medi 2015 ar gyfer pob dysgwr sy'n gweithio ar Lefel 1, 2 neu 3 yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Nid yw'n ofyniad statudol ond at ddibenion adrodd o 2018 ymlaen bydd cyflawni Bagloriaeth Cymru'n un o fesurau perfformiad ysgolion ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 y bydd Llywodraeth Cymru'n eu defnyddio, gan ddisodli'r mesurau trothwy presennol fel mesur cynhwysol cyfarwydd Lefel 2. O safbwynt dysgwyr ôl-16, bydd y system gyllido yn cefnogi'r broses o fabwysiadu Bagloriaeth Cymru ac mae ysgolion a cholegau wedi derbyn cais i geisio cynyddu bob blwyddyn nifer y myfyrwyr sy'n dewis ei dilyn.

Bydd gan Bagloriaeth Cymru gymwysterau ar dair lefel. Yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd pob dysgwr yn dilyn yr un rhaglen ddysgu. Penderfynir ar eu lefel ar sail asesiad.

TEITL Y CYMHWYSTER	LEFEL	GRADDAU SYDD AR GAEL	PRYD Y CAIFF EI DDEFNYDDIO
Bagloriaeth Cymru - Lefel Sylfaen	Lefel 1	Pasio* a Phasio	Ceir gwahanol fersiynau i'w defnyddio yng Nghyfnod Allweddol 4 neu ar gyfer myfyrwyr ôl-16.
Bagloriaeth Cymru - Lefel Genedlaethol	Lefel 2	A*, A, B ac C	Ceir gwahanol fersiynau i'w defnyddio yng Nghyfnod Allweddol 4 neu ar gyfer myfyrwyr ôl-16.
Bagloriaeth Cymru - Lefel Uwch	Lefel 3	A*, A, B, C, D ac E	Ar gyfer myfyrwyr ôl-16 yn unig.

SUT Y BYDD BAGLORIAETH NEWYDD CYMRU'N HELPU DYSGWYR I GYRRAEDD ADDYSG UWCH?

Caiff Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf bresennol ei chydabod a'i derbyn gan lawer o brifysgolion yn y DU fel cymhwyster lefel mynediad. Yn achos miloedd o ddysgwyr, mae cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ar ei ffurf bresennol, wedi cael ei dderbyn fel cyfraniad at ofynion mynediad sefydliadau. Mae cyflwyno trefn raddio ar lefel Uwch o 2013 wedi atgyfnerthu'r sefyllfa hon ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno mynd i brifysgolion yn 2015, gan helpu tiwtoriaid derbyn i gyflwyno cynigion priodol. Bydd y newidiadau pellach a mwy radical a fydd yn cael eu cyflwyno i'w haddysgu o fis Medi 2015 yn datblygu ac yn asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc, yn nhyb prifysgolion, ar gyfer dysgu, byw a gweithio.

Mae'r adborth a gafwyd yn dilyn rhaglen helaeth o ymweliadau a thrafodaethau â phrifysgolion yn bositif iawn: mae prifysgolion yn hoffi'r Prosiect Unigol ynghyd â'r pwyslais ar sgiliau. Drwy basio Bagloriaeth Uwch Cymru, bydd dysgwyr yn ennill cymhwyster sy'n cyfateb i Safon Uwch ac yn cael ei raddio yn yr un ffordd (A* i E). Mae UCAS yn disgwyl dyrannu'r un pwyntiau tariff ar gyfer mynediad i brifysgolion ag ar gyfer Safon Uwch – bydd nifer y pwyntiau a ddyrennir i bob gradd yn cyfateb i'r pwyntiau ar gyfer y radd Safon Uwch gyfatebol.

Dylai dysgwyr sy'n bwriadu astudio mewn prifysgol, a'r bobl sy'n eu cyngori, geisio derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf gan bob sefydliad unigol ynghylch gofynion mynediad pob cwrs.

SUT Y MAE BAGLORIAETH NEWYDD CYMRU'N CYD-FYND Â'R CWRICWLWM?

Mater i ganolfannau yw penderfynu sut y byddant yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru o fewn eu hysgol neu eu coleg. Golyga'r ffaith bod y cymhwyster mor hyblyg bod modd gwneud hyn mewn sawl gwahanol ffordd.

Mae'r manylebau newydd ar gael ar wefan CBAC. Bydd cyngor a chefnogaeth ar gael gan CBAC a'r consortia rhanbarthol.

Mae Lefel Uwch Bagloriaeth Cymru'n gyfwerth ag un cymhwyster Safon Uwch. Mae Lefel Sylfaen/Cenedlaethol Bagloriaeth Cymru'n gyfwerth ag un TGAU.

“Mae Bagloriaeth Cymru'n creu cyfle gwirioneddol i ysbrydoli dysgwyr i wella eu sgiliau, gan eu gwneud yn fwy cyflogadwy, yn eu gwneud yn fwy parod ar gyfer bywyd yn gyffredinol ac yn eu galluogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu.”

Scott Waddington, Prif Weithredwr, SA Brain

RHAGOR O WYBODAETH

Caiff egwyddorion Bagloriaeth newydd Cymru eu nodi ar wefan Cymwysterau Cymru: www.cymwysteraucymru.org

Mae'r manylebau ar gael ar wefan CBAC: www.cbac.co.uk